

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle rhoddwyd rhybudd)

**Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro**

**Alison Jones Dental, 101
Whitchurch Road,
Caerdydd.**

12 Mawrth 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr am fod ieithoedd a fformatau eraill yn cael eu cynhyrchu ar gais i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	2
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb	5
5.	Canfyddiadau	6
	Profiad y Claf.....	6
	Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru	9
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	16
	Ansawdd yr Amgylchedd	19
6.	Y Camau Nesaf.....	21
	Atodiad A.....	22

1. Cyflwyniad

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gwblhau arolygiad lle rhoddwyd rhybudd yn Alison Jones Dental yn 101 Whitchurch Road, Caerdydd, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ar 12 Mawrth 2015.

Ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol yn ystod yr arolygiad:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o Bractisau Deintyddol Cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda y mae practisau'n bodloni'r safonau yn Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru.¹

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion

¹Daeth Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru i rym ar 1 Ebrill 2010. Mae'r fframwaith safonau yn nodi gofynion yr hyn a ddisgwylir gan bob gwasanaeth iechyd ym mhob lleoliad yng Nghymru.

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1064/Gwneud%20yn%20Dda%2C%20Gwneud%20yn%20Well%20%E2%80%93%20Safonau%20ar%20gyfer%20Gwasanaethau%20Iechyd%20Cymru%20%28Ebrill%202010%29.pdf>

- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth a gwefan y practis
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu o unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg ar y modd y gweithredir safonau yn y practis a ymwelwyd ar ddiwrnod yr arolygiad.

3. Cyd-destun

Mae Alison Jones Dental yn darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion yn ardal y Mynydd Bychan, Caerdydd. Mae'r practis yn ffurfio rhan o ystod o wasanaethau deintyddol a ddarperir o fewn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae tîm staff y practis yn cynnwys y prif ddeintydd, deintydd cyswllt, hylenydd deintyddol, pedair nyrs ddeintyddol, a dau aelod o staff derbynfa. Roedd rheolwr practis ar gael i'r staff ar y ffôn, ond roedd wedi'i leoli'n bennaf mewn practis arall yr oedd y prif ddeintydd yn berchen arno. Roedd rheolwr y practis yn bresennol yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau deintyddol. Mae'r practis yn darparu gwasanaethau deintyddol ar gyfer cleifion y GIG a chleifion sy'n talu'n breifat. Dywedwyd wrthym fod 95% o'r cleifion yn y practis yn talu'n breifat.

Gan fod Alison Jones Dental yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG, bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis, sydd hefyd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat, hefyd yn destun i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.

4. Crynodeb

Edrychodd AGIC ar sut mae Alison Jones Dental yn bodloni'r safonau gofal yn y ddogfen 'Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru.

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth yr oeddent yn ei dderbyn yn Alison Jones Dental, a'u bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Roedd yr adborth yn yr holiaduron cleifion a sylwadau a wnaed gan y cleifion ar ddiwrnod yr arolygiad yn gadarnhaol am bob maes gofal.

Dywedodd dros hanner o'r cleifion wrthym nad oeddent yn gwybod sut i gael mynediad at ofal deintyddol y tu allan i oriau, a dywedodd dwy ran o dair o'r cleifion nad oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn am y gwasanaeth maent yn ei dderbyn yn y practis.

Ar y cyfan, nid oeddem yn gallu bod yn fodlon bod y practis yn bodloni'r safonau perthnasol. Roeddem o'r farn bod cyfleusterau clinigol y practis yn foddhaol. Mae ystafell neilltuedig ar gyfer glanhau a sterileiddio offer, ond gwnaethom rai argymhellion ar sut i wella'r prosesau dadheintio. Gwnaethom ofyn am sicrwydd ar unwaith bod y practis yn gwneud gwiriadau dyddiol i weld a yw'r offer sterileiddio'n gweithio'n effeithiol. Gwnaethom hefyd argymhellion ynghylch prosesau radiograffig, cyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys, a gwelliannau i'r broses o gadw cofnodion yn y practis.

Daeth y practis o dan berchenogaeth newydd ym mis Chwefror 2012, pan gymerodd y prif ddeintydd yr awenau. Er i reolwr practis gael ei gyflogi i ymdrin â chyllid a gwaith gweinyddol, dywedwyd wrthym mai cyfrifoldeb y prif ddeintydd oedd y gwaith o reoli'r practis o ddydd i ddydd. Gwnaeth staff y practis ganmol y prif ddeintydd am y gwaith a wnaed ers iddo gymryd awenau'r practis. Fodd bynnag, rydym wedi gwneud argymhellion ynghylch polisiâu, arfarniadau staff, a chontractau staff.

Dywedwyd wrthym fod y practis wedi cael gwaith ailwampio sylweddol, gan gynnwys gosod system wres canolog, ers i'r prif ddeintydd presennol gymryd yr awenau. Dywedodd y cleifion a'r staff fod y practis yn fwy cyfforddus ers i'r gwaith ailwampio gael ei wneud. Nid oedd mynediad i'r practis yn addas ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn, yn enwedig gan fod y brif ystafell driniaeth ddeintyddol wedi'i lleoli ar y llawr cyntaf.

5. Canfyddiadau

Profiad y Claf

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth yr oeddent yn ei dderbyn yn Alison Jones Dental, a'u bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Roedd yr adborth yn yr holiaduron cleifion a sylwadau a wnaed gan y cleifion ar ddiwrnod yr arolygiad yn gadarnhaol am bob maes gofal. Dywedodd dros hanner o'r cleifion wrthym nad oeddent yn gwybod sut i gael mynediad at ofal deintyddol y tu allan i oriau, a dywedodd dwy ran o dair o'r cleifion nad oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn am y gwasanaeth maent yn ei dderbyn yn y practis.

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion i gael sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. At hynny, gwnaethom siarad â dau glaf a oedd yn derbyn triniaeth ar ddiwrnod yr arolygiad. Dychwelwyd 37 o holiaduron.

Roedd adborth y cleifion yn gadarnhaol yn unfrydol. Dywedodd pob claf wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth yr oeddent yn ei dderbyn, a'u bod yn teimlo bod croeso iddynt gan staff y practis. Gwelsom staff yn siarad â chleifion mewn ffordd groesawgar, gyfeillgar a phroffesiynol.

Roedd sampl o sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

“Yn barod iawn eu cymwynas ac yn ddigyffro.”

“Rydw i wastad wedi cael triniaeth ardderchog ... mae'r staff bob amser yn barod eu cymwynas ac yn ddymunol.”

“Mae'r ddeintyddfa'n anhygoel, gan gynnwys y derbynnydd, yr hylenydd, y deintydd a'r cynorthwyydd. Mae gen i ffobia gwael iawn, ac roeddwn i'n casáu dod, ond maen nhw wedi gwneud i mi deimlo mor gyfforddus nad ydw i'n ei ofni nac yn poeni bellach. Does dim byd yn ormod o drafferth iddyn nhw.”

“Rydw i a fy nheulu bob amser yn cael gwasanaeth ardderchog.”

Roedd system apwyntiad hyblyg ar waith, a gallai cleifion drefnu apwyntiadau ymlaen llaw yn ogystal ag ar sail argyfwng. Roedd hyn yn golygu y gallai'r cleifion fod yn hyderus bod system ar waith i geisio sicrhau eu bod yn cael eu gweld yn gyflym pe baent yn teimlo poen deintyddol.

Dyweddodd y rhan fwyaf o'r cleifion wrthym nad ydynt wedi profi unrhyw oediad sylweddol wrth aros i gael eu gweld. Gwnaeth y staff ddisgrifio'r ffordd y byddent yn hysbysu'r cleifion pe bai eu deintydd yn hwyr, fel bod y cleifion yn gwybod cyn gynted â phosibl pe bai oediad.

Roedd yr holl gleifion yn teimlo eu bod wedi cael digon o wybodaeth am eu triniaeth, a dywedodd un ohonynt ei fod yn teimlo y byddai'n gallu *"gofyn am wybodaeth ychwanegol os oedd angen"*.

Roedd gwybodaeth am y practis ar gael i'r cleifion mewn dogfen a oedd ar gael wrth ddesg y dderbynfa.

Nid oes gan y practis wefan, ond fe'n hysbyswyd gan reolwr y practis bod cynlluniau ar y gweill i gyflwyno un yn y dyfodol agos. Gwnaethom awgrymu y dylai'r practis yn edrych ar ganllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer hysbysebu wrth ddylunio eu gwefan.

Fe'n hysbyswyd nad yw'r practis yn casglu barn cleifion yn aml. Fodd bynnag, fe'n hysbyswyd bod awgrymiadau a wneir gan gleifion yn cael eu hystyried. Fe'n hysbyswyd eu bod yn gweithredu yn sgil adborth gan gleifion ynghylch amgylchedd y practis. Gwnaethom drafod yr angen i'r practis ddatblygu system o gasglu adborth gan gleifion yn rheolaidd, megis defnyddio blwch awgrymiadau neu holiaduron cleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ddatblygu ffordd gadarn o geisio barn ac adborth gan gleifion er mwyn asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd.

Dyweddodd 19 o blith 37 o gleifion a gwblhaodd ein holiadur (51%) nad oeddent yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol 'y tu allan i oriau'. Fodd bynnag, gwelsom arwydd ar ddrws ffrynt y practis gyda'r rhif gofal deintyddol argyfwng y tu allan i oriau wedi'i argraffu, a gwnaethom gadarnhau bod y rhif ffôn argyfwng yn cael ei ddarparu ar neges peiriant ateb y practis. Gwnaethom sylwi bod yr arwydd ar y drws ffrynt gyda manylion y rhif ffôn cyswllt argyfwng wedi'i ysgrifennu mewn ffont bach, ac o'r herwydd byddai llawer o gleifion yn ei gael yn anodd ei ddarllen.

Pan ofynnwyd ynghylch gwneud cwyn, dywedodd dau draean o'r cleifion wrthym nad oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn am eu gwasanaeth deintyddol. Gwelsom fod gweithdrefn gwyno'r practis wedi'i harddangos, ond roedd hon wedi'i hysgrifennu mewn ffont bach hefyd, ac roedd wedi'i lleoli y tu ôl i ddesg y dderbynfa, ac felly roedd yn anodd i'r cleifion ei darllen.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod y polisi cwynion wedi'i arddangos lle gall cleifion ei weld yn hawdd.

Awgrymwyd y dylai'r practis ystyried sut y gallent sicrhau bod gwybodaeth yn fwy hygyrch i ystod ehangach o gleifion. Er enghraifft, gallent ddarparu gwybodaeth mewn maint ffont/testun mwy ac mewn ieithoedd eraill, gan gynnwys y Gymraeg. Gellid asesu'r angen am hyn trwy gael adborth gan gleifion.

Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru

Ar y cyfan, nid oeddem yn gallu bod yn fodlon bod y practis yn bodloni'r safonau perthnasol. Roeddem o'r farn bod cyfleusterau clinigol y practis yn foddhaol. Mae ystafell neilltuedig ar gyfer glanhau a sterileiddio offer, ond gwnaethom rai argymhellion ar sut i wella'r prosesau dadheintio. Gwnaethom ofyn am sicrwydd ar unwaith bod y practis yn gwneud gwiriadau dyddiol i weld a yw'r offer sterileiddio'n gweithio'n effeithiol. Gwnaethom hefyd argymhellion ynghylch prosesau radiograffig, cyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys, a gwelliannau i'r broses o gadw cofnodion yn y practis.

Cyfleusterau clinigol

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol ym mhob ystafell driniaeth, a gweld eu bod yn cynnwys offer perthnasol ar gyfer diogelwch cleifion a staff. Defnyddir yr ystafell driniaeth ar y llawr daear ar gyfer triniaethau hylendid yn unig, felly nid oedd yn cynnwys offer a deunydd ar gyfer deintyddiaeth gyffredinol. Gwnaethom nodi bod y ddwy ystafell driniaeth yn lân ac yn daclus. Roedd yr offer wedi'i storio'n briodol i osgoi halogi.

Gwnaethom sylwi nad oedd y math o offer a ddefnyddir yn y practis i ddal deunydd llenwadau yn ei le (bandiau matrices) yn rhai untro. Mae Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (01-05)² yn argymhell y dylid defnyddio bandiau matrices untro yn lle'r rhain. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis symud at ddefnyddio offer untro lle y bo'n briodol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ystyried defnyddio bandiau matrices untro yn lle'r rhai a ddefnyddir ar hyn o bryd.

Canfuom fod profion dyfeisiau cludadwy wedi cael eu cynnal i wirio bod y dyfeisiadau trydanol bach a ddefnyddir yn y practis yn addas i'r diben ac yn ddiogel i'w defnyddio.

² Cyfres o ganllawiau yw Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, a fwriedir ar gyfer codi ansawdd gwaith dadheintio (glanhau a sterileiddio) mewn gwasanaethau deintyddol gofal sylfaenol.

Roedd offer diogelu personol fel menig untro ac offer diogelu llygaid ar gael i staff eu defnyddio i helpu i atal croes-heintio. Roedd sinciau golchi dwylo pwrpasol hefyd ar gael i helpu i reoli heintiau.

Dadheintio offer

Roedd gan y practis ystafell neilltuedig ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol, a gwelsom fod prosesau addas ar waith i ddiogelu cleifion rhag croes-heintio. Er bod yr ystafell hon yn fach, roedd y maint yn addas i'w gwneud yn bosibl i lanhau offer yn effeithiol. Roedd sinciau penodol ar gael ar gyfer golchi dwylo er mwyn helpu i reoli heintiau, ac roedd yr holl gyfarpar diogelu personol priodol ar gael i'r staff.

Ni welsom dystiolaeth bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant unigol ar ddadheintio, ond roedd y polisi dadheintio a'r weithdrefn ddadheintio wedi'u harddangos yn y man glanhau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai fod gan yr holl staff sy'n chwarae rhan mewn gwaith dadheintio gofnodion hyfforddiant unigol.

Roedd llyfrau cofnodion yn cael eu cadw ar gyfer glanhau offer, ond nid oedd tystiolaeth bod gwiriadau safonol wedi cael eu cynnal gan staff nyrsio ar ddechrau ac ar ddiwedd pob dydd. Nid oedd ffordd, felly, o gadarnhau bod y sterilydd yn gweithio'n effeithiol ar ddechrau bob dydd. Gwnaethom ofyn am sicrwydd ar unwaith ynghylch y mater hwn ar ddiwrnod yr arolygiad, a gwnaethom ysgrifennu at y practis ar unwaith ar ôl yr arolygiad i ofyn iddynt ddechrau gwneud gwiriadau dyddiol. Cadarnhaodd y practis inni fod gwiriadau priodol bellach yn cael eu gwneud, a bod hyn wedi cael ei weithredu'n syth ar ôl ein harolygiad. Mae cadarnhad o'r camau gweithredu a gymerwyd gan y practis yn Atodiad A.

Ar y cyfan, gwelsom fod offer yn cael ei storio'n briodol. Fodd bynnag, pan oedd yr offer yn cael ei lanhau, gwnaethom sylwi ei fod weithiau'n cael stamp gyda'r dyddiad dod i ben, ac weithiau gyda'r dyddiad glanhau. Gallai hyn arwain at ddryswch ynghylch p'un a ellid defnyddio'r offer. Yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, dylai'r holl offer gynnwys y dyddiad glanhau, a dylid stampio offer nad yw'n cael ei ddefnyddio'n aml â'r dyddiad y bydd y cyfnod storio a argymhellir yn dod i ben. Gwnaethom gynghori'r practis y dylid cadw cofnod ysgrifenedig o'r offer nad yw'n cael ei ddefnyddio'n aml, a'r dyddiad dod i ben.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod offer sy'n cael ei lapio yn cynnwys y dyddiad glanhau ac, yn enwedig ar gyfer offer nad yw'n cael ei ddefnyddio'n aml, y dyddiad dod i ben.

Gwnaethom sylwi hefyd bod offer glân mewn bagiau wedi'i storio mewn cwpwrdd ar ochr frwnt yr ystafell ddadheintio. Er mwyn cydymffurfio ag arferion gorau, gwnaethom gynghori y dylai'r offer gael ei storio mewn amgylchedd glân a sych, a gwnaethom awgrymu y dylid symud yr offer i gwpwrdd gwag yn rhan lân yr ystafell. Cytunodd y practis i wneud hyn ar ddiwrnod yr arolygiad.

Gwnaethom drafod y buddiannau i'r practis pe baent yn cwblhau archwiliad rheoli heintiau. Byddai hyn yn eu helpu i nodi sut y gellid gwella gweithdrefnau dadheintio a helpu i symud at arferion gorau. Gwnaethom argymhellir y dylai'r practis gwblhau'r archwiliad a argymhellir gan ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05³ (WHTM 01-05).

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ymgymryd ag archwiliad rheoli heintiau o leiaf unwaith bob blwyddyn a datblygu cynllun gwella i ymdrin ag unrhyw broblemau a amlygir gan yr archwiliad.

Gwaredu gwastraff

Roedd gwastraff yn cael ei drin, ei storio a'i waredu'n briodol yn y practis, ac roedd contract gwaredu gwastraff cyfredol yn bodoli. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod modelau deintyddol yn cael eu rhoi yn y gwastraff peryglus yn hytrach na mewn cynhwysydd ar wahân.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod modelau deintyddol yn cael eu rhoi mewn cynhwysydd gypswm (plaster) priodol wrth gael gwared arnynt.

Cyfarpar radiograffig (pelydr-X)

³ Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (01-05) yn rhoi canllawiau ar ddadheintio i weithwyr proffesiynol mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel. Roedd dogfennau perthnasol ar gael, gan gynnwys dogfennau ynglŷn â gwiriadau diogelwch, cynnal a chadw, a phrofi.

Gwnaethom sylwi nad oedd y practis yn gwirio'n rheolaidd bod y cemegion a ddefnyddir i ddatblygu delweddau pelydr-X ar y lefelau cywir i sicrhau delwedd pelydr-X o ansawdd da. Roedd hyn yn golygu y gallai'r cleifion fod yn agored i ymbelydredd ar gyfer sgan pelydr-X a allai fod o ansawdd clinigol annigonol. Gwnaethom awgrymu y dylai ffilm brofi, yn ddelfrydol yn ddelwedd lletem grisiau, gael ei ddatblygu'n rheolaidd i wirio ei fod yn gweithio'n iawn. Dylai hyn gael ei wneud bob tro y caiff y cemegion eu newid, yn ddelfrydol ar ddechrau pob dydd. Gwnaethom hefyd atgoffa'r practis y dylent gynnal archwiliadau sicrhau ansawdd er mwyn sicrhau bod ansawdd delweddau pelydr-X yn dda.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis gynnal archwiliadau sicrhau ansawdd ar gyfer offer radiograffig yn ôl gofynion y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol). Dylid newid toddiannau prosesu'n gyson fel y dangosir gan brofion monitro rheolaidd.

Er bod y deintyddion wedi cael hyfforddiant priodol ar ymbelydredd Ïoneiddio, dywedwyd wrthym nad oedd y nyrsys a oedd hefyd yn defnyddio'r peiriant pelydr-X wedi derbyn hyfforddiant o'r fath. At hynny, nid oedd tystysgrif i gadarnhau bod un o'r deintyddion wedi mynychu'r hyfforddiant gofynnol ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad. Gwnaethom ysgrifennu at y practis ar wahân yn syth ar ôl yr arolygiad i gael sicrwydd bod yr holl aelodau staff sy'n cymryd sganiau pelydr-X wedi cael hyfforddiant priodol. Gwnaeth y practis gadarnhau bod y deintydd wedi cwblhau'r hyfforddiant o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf, ac y byddai'r staff nyrsio'n gwneud yr hyfforddiant o fewn y pedair wythnos ar ôl yr arolygiad.

Cyfarpar meddygol brys a meddyginiaeth frys

Roedd offer dadebru a meddyginiaeth ar gael i staff pe bai argyfwng gyda chlaf (llewygu) yn y practis. Fodd bynnag, canfuom nad oedd gan y practis bolisi dadebru er mwyn cynghori'r staff o'r weithdrefn i'w dilyn pe bai argyfwng meddygol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ddatblygu polisi dadebru, fel bod yr holl staff yn ymwybodol o'r weithdrefn i'w dilyn pe bai argyfwng meddygol.

Roedd cyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys a chyfarpar dadebru wedi eu storio mewn un bag argyfwng yn yr ystafell staff. Nid oedd yr ystafell hon wedi'i diogelu, ac mae posibilrwydd felly y gallai rhywun amhriodol gael mynediad at gyffuriau brys. Gwnaethom gynghori'r practis y dylid ystyried diogelwch yr ystafell staff, neu y dylid symud y cyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys i fan lle gellid eu storio'n ddiogel. Gwnaethom nodi hefyd bod y cyffuriau a'r offer wedi eu storio gyda'i gilydd mewn un bag, ac nid oedd hwn wedi'i drefnu'n systematig. Mae hyn yn golygu y gallai fod yn anodd i'r staff ddod o hyd i'r cyfarpar neu'r cyffuriau sydd eu hangen arnynt mewn argyfwng. Gwnaethom gynghori'r practis y dylid ystyried ad-drefnu'r bag hwn er mwyn ei wneud yn hawdd dod o hyd i gyffuriau a chyfarpar a ddefnyddir mewn achosion brys.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod yr holl gyfarpar a chyffuriau brys yn cael eu storio'n ddiogel a'u bod yn cael eu trefnu mewn ffordd sy'n ei wneud yn hawdd eu hadnabod a dod o hyd iddynt mewn argyfwng.

Gwnaethom sylwi bod gan y practis bath llygaid i'w ddefnyddio os oes cemegion wedi cael eu sbasio i lygad rhywun. Fodd bynnag, nid oedd hylif golchi llygaid. Gwnaethom gynghori'r practis y dylid sicrhau bod hylif golchi llygaid ar gael yn yr ystafell driniaeth ac yn yr ystafell ddadheintio, gan mai hwn yw'r lle mwyaf tebygol o gael damweiniau o'r fath.

Dywedwyd wrthym fod cyfarpar dadebru a meddyginiaeth a ddefnyddir mewn achosion brys yn cael eu gwirio'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Fodd bynnag, gwelsom fod rhai o'r cyfarpar dadebru wedi mynd heibio'r dyddiad defnyddio. Gwnaethom dynnu sylw'r practis at hyn ar ddiwrnod yr arolygiad.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod system gadarn ar waith i sicrhau bod yr holl gyfarpar dadebru a meddyginiaeth frys yn bresennol, bod eu dyddiad heb fynd heibio, a'u bod yn ddiogel i'w defnyddio.

Gwelsom dystiolaeth fod yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant cyfredol ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych yn fanwl ar sampl o naw o gofnodion cleifion. Ar adeg yr arolygiad, roedd cofnodion papur ac electronig yn cael eu cadw, felly gwnaethom edrych ar sampl o'r ddau ohonynt.

Yn gyffredinol, canfuom nad oedd digon o fanylion wedi eu cofnodi yn nodiadau'r cleifion.

Canfuom nad oedd hanesion meddygol yn cael eu diweddarau fel mater o drefn ym mhob triniaeth. Er diogelwch y cleifion, mae'n bwysig i'r hanesion meddygol gael eu gwirio a'u cydlofnodi gan y deintydd ym mhob apwyntiad, er mwyn dangos bod y deintydd yn ymwybodol o unrhyw gyflyrau meddygol. Ni chofnodwyd unrhyw wybodaeth yn nodiadau'r cleifion i ddangos tystiolaeth bod sgrinio canser y geg wedi'i gwblhau.

Ni welsom dystiolaeth o broses gydsynio ddigonol ar gyfer cleifion gan fod yr opsiynau triniaeth a drafodwyd gyda chlaf heb gael eu cofnodi. Canfuom nad oedd taflenni gwybodaeth, a ddefnyddir i roi gwybodaeth ysgrifenedig i gleifion am eu triniaeth, yn cael eu defnyddio. Dylid nodi cynlluniau ac opsiynau triniaeth amgen yng nghofnodion y cleifion, ynghyd â rhesymau dros ddewis neu wrthod triniaeth.

Canfuom nad oedd amlder apwyntiadau dilynol (pa mor aml yr argymhellwyd y dylai'r cleifion gael apwyntiadau) bob amser yn cael ei gofnodi. Golyga hyn nad yw'n bosibl asesu a yw'r canllawiau perthnasol⁴ ynghylch amlder apwyntiadau dilynol wedi cael eu dilyn.

Canfuom fod rhai sganiau pelydr-X (sganiau pelydr-X 'bitewing') yn cael eu gwneud mor aml ag yr argymhellir. Gwelsom nad oedd canfyddiadau clinigol (yr hyn yr oedd y sganiau pelydr-X yn ei ddangos) a'r cyfiawnhad (y rheswm pam fod angen sgan pelydr-X) bob amser yn cael eu cofnodi yn nodiadau'r cleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid gwella'r broses o gadw cofnodion cleifion yn y practis. Yn benodol, rhaid i ddeintyddion yn y practis sicrhau bod y canlynol yn cael eu cofnodi yn nodiadau unigol cleifion:

- ***Sgrinio canser y geg***
- ***Cyfiawnhad a gwerthusiad clinigol o'r sganiau pelydr-X***
- ***Opsiynau triniaeth a drafodwyd***
- ***Cydsyniad y claf***

⁴ Mae canllawiau clinigol ail-alw deintyddol y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) yn helpu clinigwyr i benderfynu pa mor aml rhwng apwyntiadau iechyd y geg sy'n briodol o ran bodloni anghenion cleifion unigol.

- *Pa mor aml caiff cleifion eu galw'n ôl*

Dylai deintyddion yn y practis sicrhau y gwneir sganiau pelydr-X 'bitewing' mor aml ag sy'n briodol.

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Daeth y practis o dan berchenogaeth newydd ym mis Chwefror 2012, pan gymerodd y prif ddeintydd presennol yr awenau. Er i reolwr practis gael ei gyflogi i ymdrin â chyllid a gwaith gweinyddol, dywedwyd wrthym mai cyfrifoldeb y prif ddeintydd oedd y gwaith o reoli'r practis o ddydd i ddydd. Gwnaeth staff y practis ganmol y prif ddeintydd am y gwaith a wnaed ers iddo gymryd awenau'r practis. Fodd bynnag, rydym wedi gwneud argymhellion ynghylch polisïau, arfarniadau staff a chontractau staff.

Gwelsom fod tîm staff sefydledig ar waith, ac roedd rhai wedi gweithio yn y practis ers blynyddoedd lawer. Roedd hyn yn golygu bod y cleifion yn derbyn gofal gan staff cyfarwydd. Ar sail ein cyfweiliadau â staff a'n harsylwadau, daethom i'r casgliad bod staff yn gweithio'n effeithlon gyda'i gilydd fel tîm.

Gwelsom fod gan y practis amrywiaeth o bolisïau, gweithdrefnau a thystysgrifau cynnal a chadw perthnasol ar waith. Fodd bynnag, gwnaethom sylwi nad oedd gan y rhan fwyaf o'r polisïau ddyddiad, nid oeddent yn cynnwys dyddiad y fersiwn, ac ni nodwyd dyddiad ar gyfer adolygu'r polisi. Gwnaethom gynghori'r practis y dylid ychwanegu dyddiadau adolygu at yr holl bolisïau er mwyn dangos mai dyma'r fersiwn ddiweddaraf. Nid oedd y polisïau wedi cael eu llofnodi gan y staff i ddangos eu bod yn ymwybodol ohonynt.

Gwnaethom sylwi nad oedd y rhan fwyaf o'r polisïau yn benodol i'r practis am eu bod yn bolisïau generig a argraffwyd gan ddefnyddio meddalwedd gyfrifiadurol. Er enghraifft, gwelsom bolisi llywodraethu clinigol a oedd yn nodi bod amryw archwiliadau'n cael eu cynnal yn y practis. Dangosodd trafodaeth â'r prif ddeintydd nad oedd yr archwiliadau hyn yn cael eu gwneud. Gwelsom hefyd fod yr asesiad iechyd a diogelwch yn asesiad generig, ac nid oedd wedi'i gwblhau ar gyfer y practis. Gwnaethom gynghori'r practis y dylid adolygu'r holl bolisïau er mwyn sicrhau eu bod yn briodol ar gyfer y practis.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai fod gan y practis system gadarn ar gyfer sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau'n gyfredol, yn berthnasol i'r practis, a bod y staff yn ymwybodol ohonynt.

Roedd gan y rhan fwyaf o'r aelodau staff gontractau cyflogaeth, ond gwnaethom sylwi nad oedd gan y hylenydd deintyddol gontract cyflogaeth. Gwnaethom gynghori'r prif ddeintydd y dylid mynd i'r afael â hyn am ei fod yn bwysig i bob aelod o staff ddeall eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau'n glir.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai pob aelod o staff gael contract cyflogaeth.

Gwnaeth trafodaeth ag aelodau staff a'r prif ddeintydd ddangos nad oedd arfarniadau blynyddol yn cael eu cwblhau yn y practis. Gwnaethom drafod pa mor bwysig yw arfarniadau, sy'n sicrhau bod unrhyw anghenion hyfforddiant yn cael eu nodi a'u datrys.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r holl staff gael arfarniadau blynyddol.

Gwnaethom edrych ar sampl o ffeiliau staff yn y practis. Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff clinigol wedi cael eu cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, a bod ganddynt yswiriant indemniad priodol. Gwelsom dystiolaeth o gofnodion datblygiad proffesiynol parhaus personol (hyfforddiant) ar gyfer y staff. Fe'n hysbyswyd hefyd gan y staff fod ganddynt fynediad at gyfleoedd hyfforddi sy'n berthnasol i'w swyddi. Er bod y prif ddeintydd wedi cael hyfforddiant amddiffyn plant o fewn y tair blynedd diwethaf, gwelsom nad oedd yr un o'r aelodau staff eraill wedi. Gwelsom nad oedd polisi amddiffyn oedolion, a bod y staff heb gwblhau unrhyw hyfforddiant.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o arwyddion cam-drin plant ac oedolion sy'n agored i niwed ac o'r gweithdrefnau lleol y dylid eu dilyn os ydynt yn amau achos o gam-drin.

Yn unol â'r rheoliadau perthnasol ar gyfer deintyddiaeth breifat,⁵ roedd y ddau ddeintydd wedi'u cofrestru gydag AGIC, ac roedd eu tystysgrifau cofrestru wedi'u harddangos yn y practis. Roedd angen diweddarau rhai manylion, a gwnaed trefniadau ar gyfer hyn yn dilyn yr arolygiad.

Ar adeg ein harolygiad, nid oedd gan y naill ddeintydd na'r llall dystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a oedd wedi'u dyddio yn ystod y tair blynedd diwethaf, yn unol â rheoliadau deintyddiaeth breifat. Gwnaethom drafod hyn â'r prif ddeintydd, a wnaeth gytuno i sicrhau bod yr holl staff deintyddol yn

⁵ Daeth Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 i rym ar 1 Ionawr 2009. Gwnaed diwygiadau a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2012. Cyflwynodd y rhain y gofynion cyfreithiol o ran deintyddion sy'n darparu gwasanaethau deintyddiaeth preifat.

diweddarau eu gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau cyfredol. Nid yw'n orfodol i staff y practis gael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd; fodd bynnag, mae'n ofynnol bod y deintydd sy'n eu cyflogi yn ymgymryd â gwiriadau i sicrhau bod staff yn addas ar gyfer cyflogaeth. Gwnaethom drafod y trefniadau ar gyfer gwiriadau staff gyda'r prif ddeintyddion, a gwnaethant gadarnhau y byddai hyn yn cael ei gwblhau ar gyfer unrhyw staff newydd.

Roedd gan y practis drefniadau i gynnig cymorth iechyd galwedigaethol drwy'r bwrdd iechyd. Gwelsom fod staff wedi derbyn brechiadau priodol i'w hamddiffyn rhag firysau'r gwaed. Roedd gan y practis drefniadau addas ar gyfer cofnodi unrhyw ddamweiniau a digwyddiadau.

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn y practis tua unwaith bob tri mis. Roedd y prif ddeintydd yn cymryd rhai nodiadau yn y cyfarfodydd hyn, ond roedd y cyfarfodydd yn anffurfiol ac nid oedd y nodiadau'n cael eu rhannu ag aelodau staff. Gwnaethom awgrymu y dylid cymryd cofnod priodol o gyfarfodydd staff er mwyn gallu rhannu hwn ag aelodau o'r tîm nad ydynt yn bresennol yn y cyfarfod, oherwydd mae patrymau gwaith y staff yn amrywio.

Dywedwyd wrthym nad oedd y practis wedi derbyn unrhyw gwynion. Fodd bynnag, gwnaethom edrych ar y polisi cwynion a chanfuom fod y broses, yn gyffredinol, yn cydymffurfio â'r trefniadau yng ngweithdrefn gwyno'r GIG i gleifion a elwir 'Gweithio i Wella'. Roedd yn rhoi rhestr o sefydliadau perthnasol i'r cleifion gysylltu â nhw pe bai ganddynt gwyn. Fodd bynnag, dylai'r polisi gyfeirio at y Cyngor Iechyd Cymuned, a allai roi cymorth eirioli i gleifion. Gwnaethom drafod gyda'r practis yr angen i gofnodi'r holl gwynion, gan gynnwys cwynion ar lafar a chwynion anffurfiol, er mwyn iddynt allu asesu p'un a oedd unrhyw themâu yn dod i'r golwg a defnyddio cwynion fel ffordd o wella eu gwasanaeth.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r polisi cwynion gynnwys manylion y Cyngor Iechyd Cymuned.

O ystyried nifer yr argymhellion a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn, dylid rhoi ystyriaeth i sicrhau bod trefniadau mwy effeithiol a rhagweithiol ar waith yn y practis ar gyfer monitro cydymffurfiad â'r rheoliadau a'r safonau perthnasol. Er na wnaed unrhyw argymhelliad penodol yn hyn o beth, disgwylir y bydd tystiolaeth o welliant amlwg mewn perthynas â hyn yn yr arolygiad nesaf.

Ansawdd yr Amgylchedd

Dywedwyd wrthym fod y practis wedi cael gwaith ailwampio sylweddol, gan gynnwys gosod system wres canolog, ers i'r prif ddeintydd presennol gymryd yr awenau. Dywedodd y cleifion a'r staff fod y practis yn fwy cyfforddus ers i'r gwaith ailwampio gael ei wneud. Nid oedd mynediad i'r practis yn addas ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn, yn enwedig gan fod y brif ystafell driniaeth ddeintyddol wedi'i lleoli ar y llawr cyntaf.

Mae'r practis wedi'i leoli ar stryd siopa fawr, Whitchurch Road, yn ardal y Rhath yng Nghaerdydd. Mae lleoedd parcio ar gael ar strydoedd cyfagos. Er bod mynediad at y practis ar lefel y stryd, mae troad tynn i ddrws y practis, sydd â lled safonol. Byddai'n anodd, felly, i ddefnyddwyr cadair olwyn gael mynediad ato. At hynny, mae'r brif ystafell driniaeth wedi'i lleoli ar y llawr cyntaf.

Roedd arwydd ar ddrws y practis gydag enwau a chymwysterau'r ddau ddeintydd, amseroedd agor, a rhif cyswllt mewn argyfwng ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau arferol. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd enwau a rhifau cofrestru'r holl staff clinigol yn cael eu harddangos yn y practis yn unol â chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Dylai'r rhain fod yn hawdd i gleifion eu gweld.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ddangos gwybodaeth am staff (gan gynnwys eu rhifau cofrestru lle y bo'n briodol) mewn man lle gall y cleifion ei gweld yn hawdd.

Cadarnhaodd taith o amgylch yr adeilad fod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n foddhaol, er bod angen gwaith ailwampio cyffredinol. Er hyn, ar y cyfan roedd y practis yn lân ac yn daclus drwyddi draw. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gwerthfawrogi'r gwelliannau sylweddol oedd wedi eu gwneud i'r amgylchedd gweithio.

Mae gan y practis un ystafell driniaeth a ddefnyddir gan yr hylenydd ac ystafell aros/derbynfa ar lawr daear yr adeilad.

Roedd y man aros o faint priodol ar gyfer nifer yr ystafelloedd triniaeth ac roedd yn lân ac yn daclus. Roedd rhestrau prisiau i gleifion GIG a phreifat wedi'u harddangos yn y dderbynfa. Gwelsom fod detholiad o daflenni gwybodaeth hyrwyddo iechyd yn y dderbynfa/man aros. Fodd bynnag, ni welsom wybodaeth am ymwybyddiaeth o ganser y geg a rhoi'r gorau i smygu. Gwnaethom drafod yr angen i ddarparu gwybodaeth hyrwyddo iechyd bellach i gleifion yn y practis.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ystyried rhoi gwybodaeth bellach am hyrwyddo iechyd i gleifion, gan gynnwys rhoi'r gorau i ysmygu ac ymwybyddiaeth o/rhwystro canser y geg.

Mae'r brif ystafell driniaeth, yr ystafell staff, yr ystafell ddadheintio a'r toiled wedi eu lleoli ar y llawr cyntaf. Roedd y toiled yn neillryw, ac roedd at ddefnydd y cleifion a'r staff. Roedd i'w weld yn lân ac yn cynnwys cyfleusterau golchi dwylo addas i atal croes-heintio. Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, nid oedd ystafell y staff wedi'i diogelu. Gan fod cyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys yn cael eu cadw yn yr ystafell hon, gwnaethom gynghori'r practis y dylid cynyddu'r trefniadau diogelwch ar gyfer y man hwn. Gwelsom fod trefniadau addas i sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu storio'n ddiogel mewn cypyrddau ffeiliau dan glo.

Roedd arwydd ar gyfer yr allanfa dân ac roedd y diffoddwyr tân wedi cael eu harchwilio'n ddiweddar.

Roedd ail lawr yr adeilad yn cael ei ddefnyddio ar gyfer storio pethau'n unig. Gwnaethom nodi bod gwastraff clinigol yn cael ei gadw ar yr ail lawr a bod y man hwn yn anniben ac yn flêr. Gwnaethom awgrymu y dylai'r practis ystyried cael gwared ar yr annibendod yn y man hwn er mwyn lleihau'r risg i'r staff sy'n mynd at y man hwn i roi bagiau gwastraff yno neu i gael gwared arnynt.

6. Y Camau Nesaf

O ganlyniad i'r arolygiad hwn, mae angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella. Gellir gweld y manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Alison Jones Dental yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Caiff y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC, a'i werthuso yn rhan o'r broses arolygu ddeintyddol barhaus.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: Alison Jones Dental, 101 Whitchurch Road, Caerdydd

Dyddiad yr Arolygiad: 12 Mawrth 2015

Rhif y Dudalen	Y Gwelliant sydd ei Angen	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	ANGEN SICRWYDD AR UNWAITH			
	<u>Canfyddiad</u> Ni chynhelir gwiriadau rheolaidd o'r awtoclaf ar ddechrau pob dydd. Gallai methu â chynnal gwiriadau cyfnodol a thasgau cynnal a chadw yn rheolaidd beryglu diogelwch y cleifion. Y Cam Gweithredu ar gyfer Gwella sydd ei Angen Dylid cynnal gwiriadau dyddiol ac wythnosol yn unol â'r canllawiau yn Adran 4 Memorandwm Technegol Iechyd Cymru ar Ddadheintio mewn Gwasanaethau Gofal	Roedd gwiriadau dyddiol eisoes yn cael eu gwneud gan ddefnyddio stribedi TST, ac roeddent yn cael eu cadw yn y llyfr cofnodion. Fodd bynnag, nid oedd y gwiriadau dyddiol ar bwysedd ac amser yn cael eu gwneud na'u cofnodi. Mae hyn wedi cael ei gywiro ar unwaith: mae'r llyfrau cofnodi bellach yn cael eu llenwi, yn unol â'r cyfarwyddiadau.	Alison Jones	Gweithredwyd eisoes, yn syth ar ôl yr arolygiad.

Rhif y Dudalen	Y Gwelliant sydd ei Angen	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Deintyddol Sylfaenol (01-05). Ni ddylid defnyddio sterilyddion nes bod y gwiriadau dyddiol wedi eu gwneud, a'u bod wedi dwyn canlyniadau boddhaol.			
	<u>Canfyddiad</u> Ar ddiwrnod yr arolygiad, nid oedd tystiolaeth ar gael bod un o'r deintyddion wedi cwblhau hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio o fewn y pum mlynedd diwethaf fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999 a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000. Yn ogystal, nid oedd yr un o'r nyrsys deintyddol wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn o fewn y pum mlynedd diwethaf. Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn argymhell y dylai gweithwyr proffesiynol deintyddol cofrestredig gwblhau o leiaf pum awr o hyfforddiant radiograffeg ac amddiffyn rhag ymbelydredd ym mhob cylchred pum mlynedd o'u datblygiad proffesiynol parhaus. <u>Yr hyn sydd angen ei wella</u> Dylai'r holl staff clinigol gwblhau hyfforddiant mewn ymbelydredd ïoneiddio fel mater o	Nid oedd y deintydd dan sylw ar gael ar y dydd, ond mae wedi cadarnhau ac wedi rhoi tystiolaeth bod hyfforddiant ymbelydredd wedi'i gwblhau yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Fe'i gwnaed ar 19 Tachwedd 2013 yn Holiday Inn Bristol Filton. Mae'r holl nyrsys yn mynd i wneud e-ddysgu ar radiograffeg nes bod cwrs dydd ar gael.	Alison Jones	Tystysgrif ar gael ar unwaith Bydd yr holl nyrsys yn gwneud e-ddysgu o fewn pedair wythnos.

Rhif y Dudalen	Y Gwelliant sydd ei Angen	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	frys, yn unol â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) a gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.			
	Profiad y Claf			
7	Dylai'r practis ddatblygu ffordd gadarn o geisio barn ac adborth gan gleifion er mwyn asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd.	Bydd y practis yn darparu holiaduron i gleifion er mwyn asesu ansawdd ein gwasanaeth.	Victoria Ross	I'w wneud o fewn chwe mis ar ôl yr arolygiad, oherwydd rhoddwyd yr holiadur i'r cleifion ar adeg yr arolygiad.
8	Dylai'r practis sicrhau bod y polisi cwynion wedi'i arddangos lle gall cleifion ei weld yn hawdd.	Mae'r practis bellach wedi rhoi copi o'r polisi cwynion ar hysbysfwrdd y cleifion.	Joanne Tyler	Cwblhawyd
	Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru			
9	Dylai'r practis ystyried defnyddio bandiau matrices untro yn lle'r rhai a ddefnyddir ar hyn o bryd.	Ar hyn o bryd, nid ydym yn aildefnyddio'r stribedi matrices. Dim ond y dalwyr sy'n cael eu haildefnyddio, ac maent yn cael eu sterileiddio cyn cael eu defnyddio. Byddwn yn awr yn dechrau edrych ar opsiynau eraill.	Alison Jones Victoria Ross	12 mis

Rhif y Dudalen	Y Gwelliant sydd ei Angen	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
10	Dylai fod gan yr holl staff sy'n chwarae rhan mewn gwaith dadheintio gofnodion hyfforddiant unigol.	Mae cofnodion hyfforddiant, h.y. cyrsiau croes-heintio, eisoes yn cael eu cadw, ond wrth inni adolygu polisiau a chynnal hyfforddiant byddwn yn sicrhau bod dogfennau'n cael eu cynhyrchu a'u cadw. Ar 18 Mai, cawsom gyfarfod staff lle gwnaethom edrych ar y polisiau dadheintio a chroes-heintio, a chynhaliwyd hyfforddiant gyda'r holl aelodau staff ynglŷn â dulliau cyfredol o lanhau a sterileiddio offer. Cafodd hwn ei gofnodi yn y nodiadau cyfarfodydd staff, a chafodd ei ychwanegu at ffeil pob aelod o staff.	Alison Jones	Mai 2015 Ac yn ôl yr angen
11	Dylai'r practis sicrhau bod offer sy'n cael ei lapio yn cynnwys y dyddiad glanhau ac, yn enwedig ar gyfer offer nad yw'n cael ei ddefnyddio'n aml, y dyddiad dod i ben.	Yn dilyn yr arolygiad, rydym wedi sicrhau bod yr holl staff yn gweithio yn yr un ffordd. Caiff offer ei stampio â'r dyddiad sterileiddio, a bob mis mae aelod o staff enwebedig (Victoria Ross) yn gwirio offer nad yw'n cael ei ddefnyddio'n aml, ac mae'n cael ei sterileiddio eto yn unol â'r hyn a argymhellir yn y canllawiau.	Victoria Ross	Ar unwaith
11	Dylai'r practis ymgymryd ag archwiliad rheoli heintiau o leiaf unwaith bob blwyddyn a datblygu cynllun gwella i ymdrin ag unrhyw broblemau a amlygir gan yr archwiliad.	Rydym wedi ymgeisio i gynnal archwiliad dadheintio croes-heintio gyda chanolfan ddeintyddiaeth ôl-raddedig Caerdydd.	Alison Jones	Mai 2015

Rhif y Dudalen	Y Gwelliant sydd ei Angen	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
11	Dylai'r practis sicrhau bod modelau deintyddol yn cael eu rhoi mewn cynhwysydd gypswm (plaster) priodol wrth gael gwared arnynt.	Rydym wedi cysylltu â'n gwasanaeth casglu gwastraff clinigol (Cannon Hygiene), ac maent yn dweud nad oes angen cyfleusterau casglu ar wahân gan fod gennym dybiau melyn caled; fodd bynnag, rydym wedi gofyn am gynhwysydd ar wahân. Rydym wedi derbyn y cynhwysyddion arbenigol ar gyfer deunydd gypswm ac rydym yn eu defnyddio. Bydd trefniadau casglu'n cael eu gwneud gyda Cannon Hygiene pan fydd angen.	Joanne Tyler	Mai – Mehefin 2015
12	Dylai'r practis gynnal archwiliadau sicrhau ansawdd ar gyfer offer radiograffig yn ôl y gofynion yn Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol). Dylai toddiannau prosesu gael eu newid yn rheolaidd yn ôl yr hyn y mae profion monitro rheolaidd yn ei ddangos.	Roeddem eisoes yn cynnal archwiliadau o'r radiograffau a gymerwyd. Cymerir radiograff prawf bob wythnos, ac fe'i gosodir ar y sylwr pelydr-X i gymharu â radiograffau a gymerir yn ddyddiol i wirio cemegion prosesu.	Alison Jones	Ar unwaith
12	Dylai'r practis ddatblygu polisi dadebru, fel bod yr holl staff yn ymwybodol o'r weithdrefn i'w dilyn pe bai argyfwng meddygol.	Mae holl aelodau'r practis wedi derbyn hyfforddiant dadebru llawn; fodd bynnag, nid oes gennym brotocol ysgrifenedig ar gyfer nodi pa aelod o staff a gwblhaodd bob gweithdrefn. Mae hyn bellach wedi ei gywiro, a bydd yn cael ei drafod gydag aelodau staff yn yr hyfforddiant dadebru ar 15 Mai.	Victoria Ross	Mai 2015
13	Dylai'r practis sicrhau bod yr holl gyfarpar a chyffuriau brys yn cael eu storio'n ddiogel	Roedd y cyffuriau a'r cyfarpar wedi eu storio mewn man a oedd yn hygyrch i bob aelod o staff,	Alison Jones	Clo wedi'i osod ar unwaith

Rhif y Dudalen	Y Gwelliant sydd ei Angen	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	a'u bod yn cael eu trefnu mewn ffordd sy'n ei wneud yn hawdd eu hadnabod a dod o hyd iddynt mewn argyfwng.	ond nid oedd clo ar y drws hwn – mae hyn bellach wedi'i gywiro. Cedwir yr allwedd ar gyfer y drws yn y dderbynfa ac yn y ddwy ystafell driniaeth, ac mae gan bedwar aelod o staff allweddau ychwanegol. Yn dilyn y cwrs adfywio cardio-pwlmonaidd, rydym yn awr yn mynd i brynu bocs clir i gadw'r holl gyffuriau perthnasol, ac mae gennym fagiau sydd wedi eu labeli'n glir ar gyfer pob cyffur.		3 mis
13	Rhaid i'r practis sicrhau bod system gadarn ar waith i sicrhau bod yr holl gyfarpar dadebru a meddyginiaeth frys yn bresennol, bod eu dyddiad heb fynd heibio, a'u bod yn ddiogel i'w defnyddio.	Mae gan y practis system ar waith eisoes ar gyfer gwirio bod cyffuriau'n bresennol a'u bod o fewn eu dyddiad defnyddio. Cedwir copi ohono gyda'r offer dadebru a chyda rheolwr y practis (yn y practis arall). I wella ein system, mae gennym hefyd lyfr cofnodi sy'n cael ei lofnodi a'i ddyddio i wirio bod yr holl gyffuriau'n bresennol a'u bod o fewn eu dyddiad defnyddio; gwneir hyn yn fisol. Rydym hefyd yn mynd i brynu bocs clir i gadw'r cyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys ynddo, er mwyn ei wneud yn haws i'w adnabod. Mae hyn oherwydd bod ein bag presennol yn ei wneud yn anodd iawn mynd at y cyffuriau mewn argyfwng neu wrth gynnal gwiriadau. Rydym wedi prynu dau doddiant bath llygaid, y naill i'w gadw yn yr ystafell ddadheintio a'r llall i'w gadw gyda'r cyffuriau a ddefnyddir mewn	Victoria Ross a Joanne Tyler	Eisoes ar waith Cyn gynted â phosibl

Rhif y Dudalen	Y Gwelliant sydd ei Angen	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		achosion brys.		
14	Dylid gwella'r broses o gadw cofnodion cleifion yn y practis. Yn benodol, rhaid i ddeintyddion yn y practis sicrhau bod y canlynol yn cael eu cofnodi yn nodiadau unigol cleifion: • Sgrinio canser y geg • Cyfiawnhad a gwerthusiad clinigol o'r sganiau pelydr-X • Opsiynau triniaeth a drafodwyd • Cydsyniad y claf • Pa mor aml caiff cleifion eu galw'n ôl Dylai deintyddion yn y practis sicrhau y gwneir sganiau pelydr-X 'bitewing' mor aml ag sy'n briodol.	Mae trefniadau cadw cofnodion bellach wedi eu hystyried a'u trafod gyda'r holl ddeintyddion. Prynwyd llyfr cofnodion clinigol yr FDGP hefyd i gynorthwyo yn hyn o beth. Hefyd, mae radiograffau'n cael eu cymryd yn fwy aml, yn unol â'r canllawiau presennol.	Alison Jones	Ar unwaith
Rheolaeth ac Arweinyddiaeth				
16	Dylai fod gan y practis system gadarn ar gyfer sicrhau bod yr holl bolisiau a gweithdrefnau'n gyfredol, yn berthnasol i'r practis, a bod y staff yn ymwybodol ohonynt.	Er bod yr holl bolisiau ar gael i'r staff, nid oedd gennym gofnod i ddangos bod y staff wedi gweld ac wedi darllen y polisiau hyn, neu ddyddiad adolygu ar gyfer y polisiau. Yn awr, rydym yn mynd i glustnodi amser penodol yn y cyfarfod staff i drafod y polisiau, a byddwn yn creu cofnod	Alison Jones	Dros 12 mis

Rhif y Dudalen	Y Gwelliant sydd ei Angen	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		o hyn. Bydd y polisïau hyn yn cael eu hadolygu'n flynyddol, oni bai bod unrhyw ddiweddariadau'n codi rhwng y dyddiadau hyn.		
17	Dylai pob aelod o staff gael contract cyflogaeth.	Roedd gan bob nyrs a deintydd gontract; mae contract yr hylenydd yn cael ei lunio ar hyn o bryd.	Alison Jones	2 fis
17	Dylai'r holl staff gael arfarniadau blynyddol.	Bydd arfarniadau staff yn cael eu cynnal yn flynyddol, a bydd cynllun datblygu personol yn cael ei lunio ar gyfer pob aelod o staff.	Joanne Tyler	12 mis
17	Dylai'r practis sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o arwyddion cam-drin plant ac oedolion sy'n agored i niwed ac o'r trefniadau lleol y dylid eu dilyn os amheuir unrhyw gamdriniaeth.	Mae pob aelod o staff eisoes wedi cwblhau cwrs amddiffyn plant yn ystod y tair blynedd diwethaf (2013), ac rydym wedi trefnu i fynychu cwrs oedolion sy'n agored i niwed yn Ysbyty Llandochau ym mis Mehefin 2015.	Alison Jones	Mehefin 2015
18	Dylai'r polisi cwynion gynnwys manylion y Cyngor Iechyd Cymuned.	Nid oeddem yn ymwybodol o'r Cyngor Iechyd Cymuned; mae hyn bellach wedi'i gywiro	Joanne Tyler	Ar unwaith
Ansawdd yr Amgylchedd				
19	Dylai'r practis ddangos gwybodaeth am staff (gan gynnwys eu rhif cofrestru lle y bo'n briodol), mewn man lle gall cleifion ei gweld yn hawdd.	Lluniwyd rhestr o enwau'r aelodau staff a'u rhifau cofrestru ar gyfer y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, ac mae hon wedi'i gosod yn yr ystafell aros mewn ffont mawr.	Joanne Tyler	Ar unwaith

Rhif y Dudalen	Y Gwelliant sydd ei Angen	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
20	Dylai'r practis ystyried rhoi gwybodaeth bellach i gleifion am hyrwyddo iechyd, gan gynnwys rhoi'r gorau i ysmygu ac ymwybyddiaeth o/rhwystro canser y geg.	Mae eisoes gennym gardiau rhoi'r gorau i ysmygu ar gael i'r cleifion. Mae Victoria wedi cael ei dewis i ymchwilio i wybodaeth hyrwyddo iechyd a'i harddangos, e.e. Mis Cenedlaethol Gwenu ym mis Mai–Mehefin 2015. Byddwn yn trafod materion i'w hyrwyddo yn ein cyfarfodydd staff.	Victoria Ross	3-4 mis

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (printiwch):Alison Jones.....

Teitl: ...Mrs.....

Dyddiad:21/5/2015.....